R. MALDWYN THOMAS a breuddwyd fawr Lloyd George a W. J. Parry

# O fewn trwch blewyn i lansio papur dyddiol

STRYD FAWR Caernarfon ar noson o Chwefror a lampau nwy y dref yn methu â goleuo ffurfafen y Parchedig Herber Evans wrth iddo fo ymlwybro tuag adref. Roedd y Rhyddfrydwyr newydd golli etholiad cyffredinol 1874 a mab castell y Penrhyn wedi dwyn etholaeth sir Gaernarfon.

Ei dwyn yn greulon — George Sholto Douglas Pennant, aer penderfynol ffortiwn y Penrhyn wedi maeddu Love Jones Parry, yr aelod Rhyddfrydol, yswain gwingar a chyntefig plas Madryn yn Llŷn.

'Mae hi ar ben ar wareiddiad', oedd geiriau gweinidog yr Annibynwyr, y dagrau ar ei ruddiau wrth edrych yn gyhuddgar ar ffenestri golau swyddfa papurau'r *Herald*. Yno roedd y peiriannau'n argraffu'r newyddion am golledion y Rhyddfrydwyr drwy Gymru, am blaid wedi'i hollti ar fater pwysig addysg, am raniadau'r rhengoedd ar ddeupen Menai.

Etholiad y wasg oedd etholiad 1874 yn yr hen sir, etholiad y wasg Gymraeg. Fe wariodd teulu'r Penrhyn arian go fawr yn lansio *Llais Y Wlad* papur a gyhoeddwyd yn wythnosol ar gyfer y frwydr leol. Un o'i brif amcanion oedd lleihau dylanwad honedig yr *Herald Cymraeg* ar yr etholwyr.

Ond y gwir amdani oedd fod yr *Herald* ei hun yn ymddwyn yn od, yn egwan ei gefnogaeth i sgweiar Madryn, yn mwynhau yr agendor a oedd yn bodoli yn rhengoedd y Rhyddfrydwyr yn y sir. Ym marn y radicaliaid, ar yr *Herald* yr oedd y bai am fuddugoliaeth aer y Penrhyn.

* * * *

PARTNERIAETH o bedwar gŵr oedd perchnogion y papur yn 1874, dau o feibion teulu'r Reisiaid, y teulu a fu'n rheoli'r busnes ers deugain mlynedd, mwy neu lai, a dau arall — James Evans, golygydd *Yr Herald Cymraeg* o'i gychwyniad, a John Evans, gwleidydd proffesiynol lleol, gŵr a fu'n drefnydd y Rhyddfrydwyr ym muddugoliaeth Jones Parry, Madryn, ym mrwydr 1868.

Erbyn yr ail o Hydref 1875 John Evans oedd unig berchennog y papurau — yr *Herald*, y *Caernarvon and Denbigh* a'r argraffiadau lleol. Efallai bod tipyn o'r *maverick* yn John Evans, tipyn o'r pryfociwr. Roedd o'n aelod yng nghapel mawr y Methodistiaid ym Moriah, ac yno, yn weinidog newydd sbon yr oedd y Parchedig Evan Jones, gŵr a ddaeth yn bencampwr pwysau trwm ei enwad, yn bregethwr, yn weinyddwr, yn olygydd, yn wleidydd.

Gŵr gweddol ifanc oedd o yn 1875, ond roedd o eisoes yn enwog oherwydd ei erthyglau yn y *Cambrian News* ar bwnc Datgysylltiad ac oherwydd iddo fo danio'i fagnelau ar W. R. M. Wynne, Peniarth, dyn y Toriaid yn etholiad '68 ym Meirion.

Daeth Evan Jones i Gaernarfon o'r Dyffryn a chafodd ei sefydlu yn weinidog Moriah ar 14 Hydref 1875 — ddeuddeg diwrnod ar ôl i John Evans afael yn awenau'r *Herald*.

Ar 16 Hydref fe gyhoeddodd John Evans erthygl yn y *Caernarvon and Denbigh*, erthygl a fu yn garreg filltir yn hanes y wasg yng Nghymru. Yn yr erthygl fe awgrymwyd bod Evan Jones wedi cael ei alw'n weinidog mewn cyfarfod pan nad oedd ond lleiafrif 'sylweddol' o aelodau'r eglwys wedi lleisio'u barn ar y mater.

Roedd dyrnau Evan Jones yn yr awyr cyn i inc yr *Herald* Saesneg sychu. Mynnodd alw seiat brys yn y capel. Yno, mewn awyrgylch ffrwydrol, fe ofalodd y gweinidog fod John Evans yn cael ei dorri o gynulleidfa Moriah.

* * * *

DYN DAWNUS milain oedd Evan Jones, ac wedi'r frwydr gyntaf hon fe droes ei gynddaredd ar swyddfa'r *Herald* — swyddfa lle bu yn bwrw'i brentisiaeth yn y wasg ugain mlynedd cyn hyn. Aeth ati i geisio dymchwel y cwmni.

Erbyn diwedd 1875 yr oedd cylch y wasg yng Nghaernarfon yn gynnwrf o straeon a sibrydion am sefydlu papur wythnosol Cymraeg newydd yn y dref, papur Rhyddfrydol a fyddai'n cystadlu am ddarllenwyr a dylanwad a hysbysebion yn erbyn yr *Herald Cymraeg*.

Cynhaliwyd cyfarfodydd dirgel dan lenni'r nos, roedd y stafell uwchben siop John Jones y drygist ar y maes yn gyrchfan y cynllwynwyr, y lle yn llawn o fwg baco bygythiol.

Yno yr oedd John Davies, 'Gwyneddon', bancer, dirwestwr a phwyllgorddyn, Cadwaladr Davies dyn arian bywiog, Hugh Pugh bancer cyfoethocaf Gwynedd — ac Evan Jones, pob un ohonynt yn ddwfn yng nghyfrinach yr ymgyrch yn erbyn John Evans yr *Herald*. Lansiwyd *Y Genedl Gymreig* gan y cwmni lleol hwn yn 1877.

Yn gyhoeddus, fe honnwyd bod *Y Genedl* yn cael ei lansio er mwyn grymuso'r blaid Ryddfrydol yn y sir. Ond yr oedd yna hefyd fwriad i ymosod ar John Evans — ar dir gwleidyddol, ac ar dir personol yn arbennig.

Gyda'r blynyddoedd fe ychwanegwyd wythnosolion eraill at *Y Genedl*, gan gynnwys *Y Werin*, yn 1885 — papur a gostiai ddimai — ac a fwriadwyd ar gyfer cymunedau'r chwareli, a'r *North Wales Observer and Express*.

* * * *

BU NEWID ym mherchnogaeth y papurau droeon, ond yr oedd yna rai enwau a fu'n rhan annatod ohonyn nhw ar hyd yr amser — ac yr oedd enw Evan Jones yn bennaf ymysg y rhain.

Roedd y perchnogion hefyd yn newid y golygyddion — eu newid nhw fesul lleuad bron — bu 'Anthropos', y Parchedig Abel Jones Parry a'r Parchedig John Evans Owen, John Jones 'Ap Ffarmwr', David Edwards, John Thomas, 'Eifionydd' a nifer o ddynion eraill yn llenwi, neu'n hanner llenwi cadair y golygydd ar wahanol adegau rhwng 1877 ac 1892.

Roedd hyn yn hollol wahanol i'r hyn a fu yn hanes *Yr Herald Cymraeg*, lle bu dau olygydd — James Evans a John Evans Jones, 'Y Cwilsyn Gwyn' yn teyrnasu am ddeugain mlynedd.

Erbyn diwedd yr wythdegau William John Parry o Fethesda, gwleidydd undebol a dyn busnes ac *impressario* Rhyddfrydiaeth newydd Gwynedd, oedd y dyn yn swyddfa'r *Genedl*. Bu'n golygu'r *Werin*; yn 1887 ef oedd y prif olygydd. Mae ei orchmynion i staff y swyddfa yn hynod am eu Seisnigrwydd a'u trahauster.

Roedd W. J. Parry yn ŵr dylanwadol iawn, roedd yna lawer o Sosialaeth yn ei Ryddfrydiaeth, a llawer iawn o genedlaetholdeb Gymreig yn ei wleidyddiaeth. Cefnogai hunan-reolaeth i Gymru, ac yn fuan, yn David Lloyd George, aelod seneddol newydd bwrdeisdrefi Arfon yn 1890, fe gafodd bartner a oedd yn rhannu'i gred yng ngrym y papur newydd.

* * * *

MEDDWL aflonydd oedd meddwl W. J. Parry. Er 1888 yr oedd wedi bod yn ystyried uno papurau'r *Genedl* efo papurau'r *Herald* gan ffurfio un tŷ cyhoeddi grymus.

Yr oedd newid wedi digwydd ym mherchnogaeth cwmni'r *Herald* yn 1885 pan werthodd John Evans y busnes i Frederick Coplestone a Richard Fletcher Smith, cyhoeddwyr y *Chester Chronicle*. Bu hyn yn fêl ar fysedd gwŷr *Y Genedl* am sbel, a chafwyd llawer o edliw bod papurau'u gwrthwynebwyr yn eiddo Saeson.

Mewn llythyr 'hollol gyfrinachol' at 'My dear friend' yn Chwefror 1891 fe ddatgelodd W. J. Parry ei gynlluniau i'r Aelod Seneddol. Roedd y ddau ohonyn nhw'n sicr o gyd-weithio — adar drycin oedd y ddau ym marn y sefydliad Rhyddfrydol lleol — 'I have never considered him honest' oedd sylwadau W. J. Darbishire, un o arweinwyr uniongred y *caucus* lleol am W. J. Parry. A phrin bod *Yr Herald* wedi byrlymu o frwdfrydedd tros ymgyrch etholiadol Lloyd George chwaith.

* * * *

YN Y llythyr hynod hwn fe soniodd W. J. Parry am yr angen o uno'r ddau gwmni ar frys cyn yr etholiad. Cyfeiriodd at yr hollt Ryddfrydol a bod bodolaeth y ddau gwmni cyhoeddi ar wahân yn lledu'r agendor.

Yna manylodd ar ei gynlluniau ynglŷn â'r wasg wedi uno'r *Genedl* a'r *Herald*. Bwriadai gyhoeddi'r papurau ar gynllun papurau dyddiol — o ddydd Mawrth hyd ddydd Sadwrn. Yn naturiol nid oedd y gweisg yn troi ar y Sul. Dyma'r cynllun:

dydd Mawrth: *Yr Herald Cymraeg*
dydd Mercher: *North Wales Observer and Express*
dydd Iau: *Y Genedl Gymreig*
dydd Gwener: *Caernarvon and Denbigh Herald*
dydd Sadwrn: *Y Werin*.

*'In this manner we would have a daily paper except Monday.'*

Roedd W. J. Parry eisoes yn trafod pethau'n gyfrinachol efo Coplestone yr *Herald*. Ymddengys bod sôn am werthu papurau'r *Herald* a'r swyddfa am £9,000, tra oedd papurau'r *Genedl* (ond nid y swyddfa yn Turkey Shore yn y cei) i gael eu gwerthu am £4,500.

Ymddengys hefyd mai pobl *Y Genedl* a oedd yn gyrru am uno'r ddau gwmni — 'addo' trafod pethau a wnâi Coplestone yn y cyfnod hwn. Yn ei gynllunio a'r cynllwynio yr oedd W. J. Parry yn rhoi pwys mawr iawn ar gefnogaeth a chyngor cyfrinachol Lloyd George.

Yn fuan fe welwyd bod anawsterau. Cyfarfu W. J. Parry efo Coplestone yn y Rhyl. Yr oedd perchennog yr *Herald* wedi ail ystyried. Yr oedd ei delerau ariannol newydd yn amhosibl o ddrud — yn 'afresymol' yn ôl Lloyd George.

* * * *

ARFERIAD W. J. Parry mewn argyfwng oedd cynnig cynllun newydd sbon. Dyna pam yr ysgrifennodd yn Ebrill 1891 at y newyddiadurwr Beriah Gwynfe Evans yng Nghaerdydd: